Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Gilddewi Uchaf

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2016**

## Cyd-destun

Ysgol arbennig annibynnol fach mewn lleoliad gwledig yn Sir Gaerfyrddin yw Cilddewi Uchaf.  Mae’r ysgol wedi ei chofrestru i addysgu hyd at dri bachgen neu ferch rhwng 8 ac 16 oed sy’n byw yng nghartref plant cysylltiedig y sefydliad.  Mae un disgybl ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd.

Yn Ebrill 2016, trosglwyddwyd perchnogaeth yr ysgol o Castlecare Cymru i Wasanaethau Addysg a Phlant Priory.  Mae rheolwr gweithrediadau addysg yn goruchwylio’r ddarpariaeth addysg yng Nghilddewi Uchaf ac ysgolion eraill sy’n perthyn i’r perchennog.

Caiff y rhan fwyaf o weithgareddau addysgol eu cynllunio a’u cyflwyno gan athro.  Yn ogystal, mae’r athro’n cynllunio gwersi sy’n cael eu cyflwyno gan aelodau o’r tîm cymorth gofal, y mae un ohonynt wedi cwblhau cymhwyster cynorthwyydd addysgu yn ddiweddar.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae’r disgybl yn ymateb yn dda i gwricwlwm sydd wedi ei deilwra yn unol â’i hanghenion unigol.  O ganlyniad, mae hi wedi magu hyder ac wedi gwella’i medrau rhifedd, ei phresenoldeb a’i hymddygiad.

Mae’r cwricwlwm yn eang ac yn darparu ar gyfer ystod eang o bynciau a phrofiadau dysgu.  Mae’r rhain yn cynnwys gweithgareddau ymarferol fel coginio, dylunio a thechnoleg a garddio sy’n bodloni diddordebau’r disgybl ac yn ennyn ei diddordeb yn dda.

Mae staff addysg a gofal yn gweithio’n dda fel tîm ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bresenoldeb ac ymddygiad y disgybl.

### Meysydd i’w datblygu

Nid oes gan yr ysgol strategaethau effeithiol i gefnogi anghenion dysgu ychwanegol disgyblion sydd angen cymorth ffocysedig â medrau iaith a llythrennedd.

Nid yw’r cyfleoedd i’r disgybl weithio ochr yn ochr â chyfoedion a chymdeithasu â nhw wedi eu datblygu’n ddigonol.

Mae angen cryfhau’r trefniadau i’r disgybl gaffael gwerthfawrogiad o’i diwylliannau a’i thraddodiadau ei hun, a rhai eraill.

Mae ansicrwydd am gyfeiriad strategol yr ysgol.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Cynyddu cyfleoedd i ddisgyblion weithio a chymdeithasu ochr yn ochr â chyfoedion

A3 Sicrhau bod strategaethau effeithiol ar waith i gefnogi datblygiad medrau iaith a llythrennedd disgyblion

A4 Datblygu cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella'r ffordd y caiff medrau allweddol eu cynllunio a'u cydlynu ar draws y cwricwlwm i sicrhau parhad a dilyniant effeithiol ar gyfer yr holl ddisgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol yn cynnal asesiad gwaelodlin defnyddiol o fedrau a galluoedd disgyblion wrth iddynt ddechrau. Mae hyn yn cynnwys asesu medrau rhifedd, sillafu a darllen. Mae'r asesiadau yn rhoi gwybodaeth gywir yn gysylltiedig ag oedran am fedrau a galluoedd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth a gesglir yn helpu'r ysgol i nodi strategaethau effeithiol i wella medrau penodol.

Mae cynllunio'r athro yn nodi cyfleoedd addas i'r disgybl ddefnyddio medrau rhifedd a llythrennedd mewn pynciau a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm. Mae'r disgybl wedi gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn darparu strategaethau ac adnoddau addas i sicrhau bod y disgybl yn gwneud cynnydd effeithiol o ran datblygu medrau sillafu a darllen.

**Argymhelliad 2: Gwella'r defnydd o ddata i olrhain cynnydd disgyblion a llywio cynllunio**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol bellach yn casglu data ar gynnydd y disgybl ym mhob maes pwnc ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i osod targedau clir mewn cynllun addysg unigol (CAU) manwl priodol. Mae'r athro yn monitro cynnydd y disgybl o ran cyrraedd y targedau hyn ac yn llunio adroddiadau cynnydd misol i'r rheolwr gweithrediadau addysg. Mae'r athro'n defnyddio'r wybodaeth hon i adolygu'r cwricwlwm a llunio cynlluniau tymor canolig gyda gweithgareddau dysgu sy'n cysylltu'n dda â'r targedau yn CAU y disgybl.

Mae'r ysgol yn casglu data ac yn olrhain cynnydd y disgybl â phresenoldeb, ymgysylltu â dysgu ac ymddygiad hefyd. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda wrth adolygu cynllun lleoli'r disgybl.

**Argymhelliad 3: Datblygu strategaethau effeithiol i wella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae arweinwyr wedi sefydlu strategaethau effeithiol i wella presenoldeb ac ymgysylltiad y disgybl â dysgu. Mae'r strategaethau hyn yn cynnwys teilwra'r cwricwlwm yn unol ag anghenion, diddordebau a galluoedd unigol y disgybl. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi addasu hyd gwersi, cyflwyno system wobrwyo a gweithgareddau dysgu cynlluniedig yn seiliedig ar ddiddordebau'r disgybl. O ganlyniad, mae'r disgybl wedi magu hyder, gwella ei phresenoldeb ac mae'n cymryd rhan mewn gweithgareddau newydd.

**Argymhelliad 4: Sicrhau bod arweinwyr a rheolwyr yr ysgol yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer yr ysgol**

Nid oes digon o dystiolaeth i lunio barn mewn perthynas â'r argymhelliad hwn. Penodwyd rheolwyr allweddol, ond maent wrthi'n datblygu'r cyfeiriad strategol ar gyfer yr ysgol o hyd.

**Argymhelliad 5: Cryfhau prosesau hunanarfarnu fel bod gan bob un o'r staff ddealltwriaeth glir o gryfderau a meysydd i'w datblygu yn yr ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae uwch arweinwyr a rheolwyr wedi adolygu a chryfhau'r prosesau hunanarfarnu. Mae'r ddogfen hunanarfarnu ddiweddaraf yn canolbwyntio ar y meysydd yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Mae'n gynhwysfawr ac yn darparu sylwadau cyd-destunol achlysurol ar feysydd anodd. Fodd bynnag, nid yw'n gyson arfarnol. Nid yw bob amser yn nodi meysydd i'w gwella, fel nodi a bodloni anghenion dysgu ychwanegol y disgybl, neu sicrhau bod y disgybl yn cael digon o gyfleoedd i gyfarfod pobl ifanc o'u hoedran eu hunain, a gweithio ochr yn ochr â nhw.

**Argymhelliad 6: Sicrhau bod gan bob un o'r staff ddealltwriaeth glir o'u rôl mewn addysg yn ystod y diwrnod ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi nodi staff i ddarparu cymorth penodol i addysg. O ganlyniad, mae gan bob un o'r staff ddealltwriaeth glir o'u rôl mewn addysg erbyn hyn. Hwylusodd yr ysgol hyfforddiant priodol ar gyfer staff cymorth i wella eu dealltwriaeth o'u rôl pan fyddant yn yr ysgol. Mae staff yng Nghilddewi Uchaf yn gweithio'n dda fel tîm i gefnogi profiadau dysgu'r disgybl yn ystod y diwrnod ysgol a'r tu allan i oriau ysgol.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- gynorthwyo disgyblion i werthfawrogi a pharchu eu diwylliannau nhw eu hunain, a phobl eraill, mewn ffordd sy'n hyrwyddo goddefgarwch a harmoni rhwng gwahanol draddodiadau diwylliannol [2(e)]

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Cilddewi Uchaf |
| **Rhif yr ysgol** | 6696012 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 11/05/2016 |
| **Perchennog** | Gwasanaethau Addysg a Phlant Priory |
| **Staff** | 1 athro, 8 aelod o staff gofal gan gynnwys dau sydd wedi eu hyfforddi fel cynorthwywyr addysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 1 |
| **Darpariaeth** | Addysg ddydd sy'n gysylltiedig â chartref plant |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 18/06/2015 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 10/07/2015 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mr Anthony Mulcahy | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Sw Roberts | Arolygydd Tîm |